

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU



Comisiwn Ffiniau a
Democratiaeth Leol
Cymru

Local Democracy and
Boundary Commission
For Wales

***ADRODDIAD BLYNYDDOL A
DATGANIADAU ARIANNOL
2016/2017***

© Hawlfraint y Goron 2017

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.

Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn cffdl.cymru@gov.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.cffdl.llyw.cymru
Hawlfraint y Goron 2017

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016/2017

Rhagair

Mae'n bleser gan y Comisiwn gyflwyno ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016/17.

Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y Comisiwn, ei weithgareddau a sut cafodd ei lywodraethu yn ystod cyfnod yr adroddiad. Nodwedd bwysicaf y flwyddyn oedd dechrau cynnal arolygon o drefniadau etholiadol y prif gynghorau yng Nghymru, sef tasg a fydd yn cael ei chwblhau erbyn 2021.

Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad yn eich helpu i ddeall gwaith y Comisiwn, a sut cafodd cymorth grant ei reoli.

Owen Watkin OBE DL
Cadeirydd
29 Awst 2017

CYNNWYS

| | | |
|-----------|---|-----------|
| 1. | CYFLWYNIAD | 1 |
| | - Y Comisiwn | 1 |
| | - Aelodaeth | 1 |
| | - Yr Ysgrifenyddiaeth | 2 |
| | - Dyletswyddau Statudol..... | 2 |
| | - Ffiniau Prif Ardaloedd..... | 2 |
| | - Ffiniau Cymunedau | 2 |
| | - Siroedd wedi'u cadw | 2 |
| | - Trefniadau Etholiadol Prif Ardaloedd..... | 3 |
| | - Gweithdrefn Arolygon..... | 3 |
| 2. | AMCANION..... | 4 |
| | - Targedau..... | 4 |
| | - Llythyr Cylch Gwaith 2016-17 | 5 |
| 3. | GWAITH Y COMISIWN YN YSTOD 2016-17 | 6 |
| | - Cyfarfodydd..... | 6 |
| | - Arolygon o Brif Ardaloedd | 6 |
| | - Arolygon Cymunedol..... | 6 |
| | - Arolygon o Ffiniau Tua'r Môr | 6 |
| | - Arolygon o Drefniadau Etholiadol..... | 6 |
| | - Cynllun Gweithredol | 6 |
| | - Llywodraethu Corfforaethol | 7 |
| | - Cyfarfodydd eraill | 8 |
| | - Llythyr Cylch Gwaith 2017-18 | 8 |
| 4. | RHEOLAETH GORFFORAETHOL: POLISIÂU AC ARFER | 9 |
| | - Dogfen Fframwaith | 9 |
| | - Archwilio | 9 |
| | - Y Cynllun Iaith Gymraeg | 9 |
| | - Hyfforddiant a Thechnoleg Gwybodaeth | 10 |
| | - Gweithdrefn Gwyno..... | 10 |
| | - Polisi Gwybodaeth..... | 11 |
| | - Rheoli Data Personol | 11 |
| | - Rhoddion a Lletygarwch..... | 11 |
| 5. | GWAITH Y COMISIWN YN YSTOD 2016-17 | 13 |
| | - Arolygon o Drefniadau Etholiadol..... | 13 |
| | - Ffiniau Tua'r Môr | 13 |
| | - Arolygon Cymunedol..... | 13 |
| | - Llywodraethu Corfforaethol | 13 |
| | - Cyfathrebu..... | 13 |
| | - Caffael..... | 13 |
| | - Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 14 |
| | - Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a Lles..... | 14 |
| | - Yr Iaith Gymraeg..... | 14 |

| | | |
|-----------|--|-----------|
| 6. | ADRODDIAD TÂL A STAFF | 16 |
| | - Polisi Tâl..... | 16 |
| | - Tâl (gan gynnwys cyflog) a hawliadau pensiwn | 16 |
| | - Nifer yr Uwch Reolwyr..... | 17 |
| | - Cyflog | 17 |
| | - Datgeliad Cyflog Teg..... | 17 |
| | - Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil..... | 18 |
| | - Iawndal ar gyfer colli swydd | 20 |
| | - Niferoedd staff a chostau cysylltiedig | 20 |
| | - Polisi Cyflogeion..... | 21 |
| | - Cyfansoddiad Staff | 22 |
| | - Ymrwymadau oddi ar y gyflogres | 22 |
| 7. | DATGANIAD ARIANNOL..... | 23 |

1. CYFLWYNIAD

Y Comisiwn

- 1.1 Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Sefydlwyd y Comisiwn ym 1974 o dan delerau Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ac fe'i hail-enwyd o dan delerau Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013). Mae darpariaethau Deddf 2013 mewn perthynas â'r Comisiwn yn disodli darpariaethau Deddf 1972.
- 1.2 Diben y Comisiwn yw:

Monitro'r ardaloedd a'r trefniadau etholiadol sy'n berthnasol i lywodraeth leol yng Nghymru at ddibenion ystyried p'un a yw'n briodol gwneud neu argymhell newidiadau. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau, rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

O dan Ddeddf 2013, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynnal arolygon o drefniadau etholiadol y prif gynghorau yng Nghymru o leiaf bob 10 mlynedd.

Aelodaeth

- 1.3 Gwasanaethodd pum aelod o'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn: Mr Owen Watkin, Mr Ceri Stradling, Mr David Powell, Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza. Mr Watkin yw'r Cadeirydd a daeth ei benodiad gwreiddiol i ben ar 14 Mehefin 2015. Ym mis Rhagfyr 2014, cyhoeddodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews AC, ei fod wedi ailbenodi Mr Watkin am gyfnod o bedair blynedd arall hyd at 14 Mehefin 2019. Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn yw Mr Ceri Stradling. Ymestynnwyd cyfnodau penodi Mr Stradling a Mr Powell gan Lywodraeth Cymru hyd fis Medi 2015, ac yna am gyfnod o bedair blynedd arall hyd at 31 Awst 2019. Mae Mrs May a Mr Joloza wedi eu penodi am dair blynedd, a ddaw i ben ar 31 Awst 2018.

Mae'r Comisiwn hefyd yn penodi Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg. Aelod Annibynnol presennol y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yw Mrs Julie James, y daeth ei phenodiad i ben ar 31 Awst 2016. Ailbenodwyd Mrs James gan y Comisiwn fel Aelod Annibynnol y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg am 3 blynedd arall, a ddaw i ben ar 31 Awst 2019. Caiff Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg y Comisiwn ei gadeirio gan Mr Stradling.

Roedd y Comisiynwyr yn aelodau o gyrff cyhoeddus eraill hefyd. Mae cofrestr o fuddiannau aelodau'r Comisiwn i'w gweld ar wefan y Comisiwn yn:

<http://ldbc.gov.wales/about/register/?lang=cy>

Archwilydd statudol y Comisiwn yw Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae contractau'n bodoli i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol, cyfrifyddiaeth, cyfieithu ac argraffu.

Yr Ysgrifenyddiaeth

- 1.4 Mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn wedi ei lleoli yn Nhŷ Hastings, Llys Fitzalan, Caerdydd. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth yn cynnwys swyddi'r Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Rheolwr Cyllid, Rheolwr Cymorth Busnes, chwe Swyddog Arolygu a phedwar Swyddog Cymorth.
- 1.5 Mr Steve Halsall yw'r Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu dynodedig y Comisiwn.
- 1.6 Er 1 Ionawr 2002, mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn hefyd wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb o ddarparu gwasanaeth Ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer ei Arolygon o'r etholaethau seneddol yng Nghymru. Adran noddi'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yw Swyddfa'r Cabinet.

Dyletswyddau Statudol

Ffiniau Prif Ardaloedd

- i) Gall y Comisiwn, o'i wirfodd neu ar gais gan awdurdod lleol, gynnal arolwg o un neu ragor o brif ardaloedd.
- ii) Mae'r newidiadau y gall y Comisiwn eu hargymell fel a ganlyn:
 - a) Y newidiadau hynny i ffin prif ardal y mae o'r farn eu bod yn briodol, ac
 - b) O ganlyniad i unrhyw newidiadau i ffin prif ardal, y newidiadau hynny i ffiniau cymunedau, newidiadau i siroedd wedi'u cadw, newidiadau i gynghorau cymuned neu drefniadau etholiadol y mae o'r farn eu bod yn briodol.

Ffiniau Cymunedau

- iii) O dan amgylchiadau penodol a gynhwysir yn y ddeddfwriaeth, gall y Comisiwn gynnal arolwg o un neu fwy o gymunedau mewn prif ardal.
- iv) Mae'r newidiadau y gall y Comisiwn eu hargymell fel a ganlyn:
 - a) Y newidiadau hynny i ffiniau cymunedau y mae o'r farn eu bod yn briodol, ac
 - b) O ganlyniad i unrhyw newidiadau i ffiniau cymuned, y newidiadau hynny i gynghorau cymuned a newidiadau cysylltiedig i drefniadau etholiadol y gymuned neu'r cymunedau sydd dan arolwg a'r brif ardal y mae o'r farn eu bod yn briodol.

Siroedd wedi'u cadw

- v) Gall y Comisiwn gynnal arolwg o un neu ragor o siroedd wedi'u cadw a gall argymell y newidiadau hynny y mae o'r farn eu bod yn briodol.

Trefniadau Etholiadol Prif Ardaloedd

- vi) Rhaid i'r Comisiwn gynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal o leiaf unwaith bob 10 mlynedd, a rhaid iddo gyhoeddi rhaglen sy'n amlinellu'r amserlen ar gyfer yr arolygon.

- vii) Mae'r newidiadau y gall y Comisiwn eu hargymell fel a ganlyn:
 - a) Y newidiadau hynny i'r trefniadau etholiadol ar gyfer y brif ardal y mae o'r farn eu bod yn briodol, ac
 - b) O ganlyniad i unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol, y newidiadau hynny i ffiniau cymunedau, newidiadau i gynghorau cymuned, newidiadau i drefniadau etholiadol cymunedau a newidiadau i siroedd wedi'u cadw y mae o'r farn eu bod yn briodol.

Gweithdrefn Arolygon

- 1.7 Mae Pennod 4 Deddf 2013 yn pennu'r canllawiau gweithdrefnol sydd i'w dilyn wrth gynnal pob arolwg. Mae camau sylfaenol arolwg fel a ganlyn:
- i) Cyhoeddi dyddiad dechrau'r arolwg pan wahoddir awgrymiadau a sylwadau cychwynnol erbyn dyddiad penodol;
 - ii) Cyhoeddi cynigion drafft y Comisiwn pan wahoddir sylwadau arnynt yn yr un modd erbyn dyddiad penodol; a,
 - iii) Chyhoeddi cynigion terfynol lle y mae'n rhaid anfon unrhyw sylwadau pellach ar ôl hyn at Lywodraeth Cymru.

2 AMCANION

- 2.1 Corff statudol a noddir gan Is-adran Democratiaeth, Amrywiaeth a Chydnabyddiaeth Ariannol Llywodraeth Cymru yw'r Comisiwn. Fel corff a noddir gan Lywodraeth Cymru, mae'r Comisiwn yn cael llythyr cylch gwaith blynyddol sy'n amlinellu blaenoriaethau'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y Comisiwn am y flwyddyn sydd i ddod. Rhaid i'r Comisiwn ddilyn y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau statudol fel y'u hamlinellir mewn deddfwriaeth hefyd. Prif swyddogaeth statudol y Comisiwn yw gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ar gyfer gwneud newidiadau i ffiniau llywodraeth leol a threfniadau etholiadol llywodraeth leol sy'n ceisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.
- 2.2 Mae Cynllun Corfforaethol y Comisiwn, y cytunwyd arno yn Nhachwedd 2016, yn amlinellu'r amcanion corfforaethol fel a ganlyn:
- Sicrhau bod trefniadau etholiadol prif ardaloedd yn addas i'r diben – datblygu rhaglen o arolygon etholiadol yn unol ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru.
 - Sicrhau bod ffiniau cymunedau a threfniadau etholiadol yn addas i'r diben – Gweithio gyda phrif gynghorau i sicrhau bod ffiniau cymunedol a threfniadau etholiadol yn cael eu harolygu'n rheolaidd a'u cydlynu â'r rhaglen o arolygon etholiadol.
 - Sicrhau bod ffiniau ardaloedd prif gynghorau'n addas i'r diben – Arolygu ffiniau prif ardaloedd, fel y bo'n briodol.
 - Datblygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein busnes – Cynnal lefel uchel o lywodraethu corfforaethol, ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gyson i greu enw da am ragoriaeth ym mhopeth a wnawn a sicrhau bod sgiliau'r staff yn cael eu datblygu a'u cynnal.
 - Sicrhau bod egwyddorion Llywodraeth Cymru o ran datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a'r Gymraeg wedi eu hymsefydlu yn ein gwaith.

Targedau

- 2.3 Caiff y gweithdrefnau sydd i'w dilyn wrth gynnal arolwg eu diffinio yn ôl statud, sy'n golygu ei bod yn ofynnol i'r Comisiwn hysbysu ac ymgynghori'n eang ac ystyried sylwadau cyn gwneud unrhyw gynigion terfynol i Lywodraeth Cymru.
- 2.4 Yn y ddeddfwriaeth, diffinnir y cyfnod ar gyfer cynrychiolaethau fel cyfnod heb fod yn llai na 6 wythnos, nac yn hwy na 12 wythnos. Gosodir targedau o fewn cyfnod arolwg ar gyfer y camau cyhoeddusrwydd ac ymgynghori, llunio adroddiadau drafft ac adroddiadau terfynol, a'r amser sydd ei angen i asesu'r materion dan sylw.
- 2.5 Roedd Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn darparu ar gyfer rhaglen deng mlynedd o arolygon etholiadol. Yn unol â hynny, lluniodd y Comisiwn raglen deng mlynedd o arolygon, y byddai'r cyntaf yn dechrau ym mis Ionawr 2014. Cyflwynodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus adroddiad i Brif Weinidog Cymru ar 20 Ionawr 2014 yn argymhell y dylid newid cyfansoddiad a gweithrediad y 22 Prif Gyngor yng Nghymru. Er mwyn osgoi unrhyw waith diwerth, gohiriwyd y rhaglen arolygon etholiadol. Dechreuodd y Comisiwn ei raglen newydd o arolygon etholiadol yn Ionawr 2017, a rhaid iddo gwblhau'r holl arolygon erbyn Awst 2021 er mwyn bodloni dyddiad targed y Gweinidog, sef 2022, fel y disgrifir ym mharagraff 2.7 isod.

Llythyr Cylch Gwaith 2016-17

2.6 Ar gyfer 2016-17, roedd Llythyr Cylch Gwaith Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2016, yn datgan ei fod yn disgwyl i'r Comisiwn:

1. Fod yn barod i ddechrau ei arolygiad o drefniadau etholiadol y prif gynghorau arfaethedig cyn gynted â phosibl, os caiff y cyfarwyddyd ei dderbyn, a chwblhau'r arolygiad cyn pen yr amserlen a roddir;
2. Bod yn barod i gynnal arolwg Cymru-gyfan o drefniadau cynghorau cymuned;
3. Parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn barod ar gyfer unrhyw arolygon; ac
4. Adolygu a gwella ei lywodraethu corfforaethol yn barhaus.

2.7 Ar 7 Medi 2016, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru Lythyr Cylch Gwaith diwygiedig ar gyfer 2016-17, yn sgil newidiadau i raglen arolygu'r Comisiwn a'r ddeddfwriaeth y byddai'n cael ei chynnal oddi tani. Roedd yr amcanion diwygiedig hyn fel a ganlyn:

1. Ailddechrau cylch arolygon etholiadol y Comisiwn o dan adran 29 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 trwy baratoi amserlen waith i arolygu ac adrodd ar drefniadau etholiadol yr holl brif ardaloedd yng Nghymru yn ystod y cyfnod llywodraeth leol nesaf (2017 hyd at 2022);
2. Wrth gynllunio eich rhaglen waith, ystyriwch arolygu'r naw awdurdod lleol sydd ag arolygon etholiadol yn weddill yn gynnar yn y broses;
3. Parhau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ar eich polisi ac arfer ar gyfer yr arolygon;
4. Sicrhau y caiff sicrhau ansawdd ei gynnwys ym mhob agwedd ar yr arolygon; ac
5. Arolygu a gwella llywodraethu corfforaethol y Comisiwn yn barhaus.

Adroddir ar y gweithgareddau yr ymgwymerwyd â nhw er mwyn cyflawni'r amcanion yn y meysydd hyn yn ystod 2016-17 yn yr adran nesaf.

3. GWAITH Y COMISIWN YN YSTOD 2016-17

Cyfarfodydd

- 3.1 Mae gan y Comisiwn raglen o gyfarfodydd misol. Cynhaliwyd un ar ddeg o gyfarfodydd y Comisiwn a thri chyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn ystod 2016-17.

Arolygon o Brif Ardaloedd

- 3.2 Nid ymgymerodd y Comisiwn ag unrhyw arolygon o ffiniau rhwng prif awdurdodau yn ystod y flwyddyn.

Arolygon Cymunedol

- 3.3 Cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad cynigion terfynol ar gyfer yr arolwg cymunedol o Gastell-nedd Port Talbot ym mis Ebrill 2016. Gwnaeth y Comisiwn Orchymyn arolwg cymunedol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 hefyd ar gyfer Sir Gaerfyrddin (Llangennech a Llanelli Wledig), ac fe ystyriodd gynigion drafft Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ar gyfer ei arolwg o Gymuned Sili a Larnog.

Arolygon o Ffiniau Tua'r Môr

- 3.4 Yn ystod 2016-17, cyhoeddodd y Comisiwn ddogfen Arolygon o Ffiniau Tua'r Môr: Polisi ac Arfer yn Ionawr 2017. Dechreuodd y Comisiwn ar gam cychwynnol o arolwg o ffiniau tua'r môr Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe yn Ionawr 2017.

Arolygon o Drefniadau Etholiadol

- 3.5 Yn ystod 2016-17, cyhoeddodd y Comisiwn ei Bolisi ac Arfer ar gyfer arolygu trefniadau etholiadau'r prif gynghorau yng Nghymru, a chynnal cyfarfodydd â chynghorau Ceredigion, Gwynedd, Powys a Chonwy yn barod ar gyfer camau cychwynnol yr arolygon o'r trefniadau etholiadol ar gyfer y prif awdurdodau hynny.

Cynllun Gweithredol 2016-17

- 3.6 Yn ei Gynllun Gweithredol 2016-17, ymatebodd y Comisiwn i Lythyr Cylch Gwaith 2016-17 trwy ddatgan sut mae'n bwriadu cyflawni gofynion Ysgrifennydd y Cabinet. Mae'r canlynol yn manylu ar y camau gweithredu arfaethedig ac i ba raddau y cawsant eu cyflawni:

| | |
|--|--|
| Sicrhau bod cynlluniau ac adnoddau priodol ar waith yn barod i gynnal arolygon o drefniadau etholiadol prif gynghorau. | Drafftiodd y Comisiwn ei ragolwg cyllidol, amserlen arolygu ac adroddiad polisi ac arfer, a chytuno arnynt â Llywodraeth Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet. Cadarnhawyd cynllun prosiect manwl ar gyfer yr amserlen arolygu hefyd, ynghyd â chofrestr risg ar gyfer yr arolwg o bob prif gyngor. |
| Ymgysylltu ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ar y polisi ac arfer ar gyfer yr arolygon. | Cyfarfu'r Comisiwn â swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i drafod yr adroddiad polisi ac arfer drafft ar gyfer arolygon etholiadol |

| | |
|---|---|
| | ym mis Hydref 2016. |
| Cynnal deialog â rhanddeiliaid er mwyn cyfnewid gwybodaeth wrth baratoi ar gyfer yr arolygon a'u gweithredu. | Yn ystod 2016-17, cyfarfu'r Comisiwn â swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Cymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru. |
| Cyfarfod â Chyngor Sir Ceredigion a dechrau'r arolwg o'i drefniadau etholiadol. | Cyfarfu'r Comisiwn â Phrif Weithredwr y Cyngor, arweinwyr y cyngor a chynrychiolwyr y cyngorau tref a chymuned yn ystod Rhagfyr 2016 ac Ionawr 2017. |
| Cyfarfod â Chyngor Gwynedd a dechrau'r arolwg o'i drefniadau etholiadol. | Cyfarfu'r Comisiwn â Phrif Weithredwr y Cyngor, arweinwyr y cyngor a chynrychiolwyr y cyngorau tref a chymuned yn ystod Ionawr a Chwefror 2017. |
| Cyfarfod â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn barod ar gyfer yr arolwg o'i drefniadau etholiadau yn 2017-18. | Cyfarfu'r Comisiwn â Phrif Weithredwr a swyddogion y Cyngor yn ystod Chwefror 2017. |
| Cyfarfod â Chyngor Sir Powys a dechrau'r arolwg o'i drefniadau etholiadol. | Cyfarfu'r Comisiwn â Phrif Weithredwr y Cyngor, arweinwyr y cyngor a chynrychiolwyr y cyngorau tref a chymuned yn ystod Chwefror a Mawrth 2017. |
| Adolygu prosesau llywodraethu'r Comisiwn bob chwarter ym mis Mai, Gorffennaf, Tachwedd a Chwefror ar gyfer llunio'r Datganiad Llywodraethu. | Yn ystod 2016-17, cynhaliwyd y broses adolygu hon ar 4 Mai 2016, 10 Awst 2016, 22 Tachwedd 2016 ac 15 Chwefror 2017. Ystyrir bod y prosesau llywodraethu wedi'u hadolygu'n ddigonol i alluogi'r Swyddfa Cyfrifyddu i ddrafftio'r Datganiad Llywodraethu. |
| Asesu risgiau gweithredol mewn cyfarfodydd tîm a rheolwyr, a bwydo i'r Risgiau Corfforaethol sydd i'w hystyried ym mhob un o gyfarfodydd y Comisiwn, yn ôl yr angen. | Gwnaed hyn ym mhob cyfarfod tîm misol, lle y gofynnwyd i staff adolygu'r Gofrestr Risgiau Gweithredol a rhoi unrhyw sylwadau i uwch reolwyr. Yn ogystal, adolygodd uwch reolwyr y Gofrestr Risgiau Gweithredol ym mis Rhagfyr 2016. |
| Trefnu o leiaf 3 chyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn ystod y flwyddyn i fonitro ac arfarnu trefniadau llywodraethu a rheoli risg cyffredinol yng Ngorffennaf, Tachwedd a Chwefror. | Gwnaed hyn ar 27 Gorffennaf 2016, 23 Tachwedd 2016 a 20 Chwefror 2017. |
| Sicrhau y caiff sicrhau ansawdd ei gynnwys ym mhob agwedd ar yr arolygon. | Cafodd cyfarwyddiadau desg manwl ar gyfer yr arolygon etholiadol eu diwygio a'u diweddarau'n barhaus. Cadwyd rhestrau gwirio yn cynnwys camau gweithredu pwysig ar gyfer pob arolwg. Cynhaliodd y Dirprwy Brif Weithredwr wiriadau â llaw, prawfddarllen a monitro'r gwaith arolygu yn gyffredinol, a chaiff adroddiadau rheolaidd ar gynydd eu cyflwyno i'r Bwrdd. |

Llywodraethu Corfforaethol

- 3.7 Aeth y Prif Weithredwr ati bob chwarter i asesu prosesau'r Comisiwn ar gyfer llunio'r Datganiad Llywodraethu.
- 3.8 Rhoddwyd system adrodd ariannol ar waith sy'n cynnwys:
- Adroddiadau misol ar y gyllideb wedi eu cymeradwyo gan y Prif Weithredwr;

- Prosesau diwedd y mis wedi eu cymeradwyo gan y Prif Weithredwr;
- Gwirio'r Gofrestr Asedau Sefydlog; ac
- Adroddiad ar y gyllideb i bob un o gyfarfodydd y Comisiwn.

3.9 Ystyriwyd Risgiau Corfforaethol ym mhob un o gyfarfodydd y Comisiwn. Aseswyd Risgiau Gweithredol mewn cyfarfodydd timau a rheolwyr, a'u dyrchafu i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, yn ôl yr angen. Asesodd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg y gweithdrefnau asesu risg yn rheolaidd. Ystyriwyd eitem ar Reoli Risg ym mhob un o gyfarfodydd y Comisiwn ac ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg. Rhoddodd yr archwiliad mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn sicrwydd sylweddol ar gyfer Refeniw a Symiau Derbyniadwy, a sicrwydd cymedrol ar gyfer Diogelwch Gwybodaeth a Rheolaethau Cyffredinol TG.

3.10 Yn ystod 2016-17, mabwysiadodd y Comisiwn weithdrefnau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer ei bolisiâu ac arferion, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ac fe gwblhaodd ei Adroddiad Monitro Blynnyddol ar yr Iaith Gymraeg. Ym mis Mawrth 2016, cadwodd y Comisiwn ei statws Lefel 2 ar gyfer Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd.

Cyfarfodydd eraill

3.11 Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd cynrychiolwyr o'r Comisiwn gyfarfodydd ag Ysgrifennydd y Cabinet Llywodraeth Cymru dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Hefyd, gwnaethom gyfarfod â chydweithwyr o Gomisiynau Ffiniau eraill y DU.

Llythyr Cylch Gwaith 2017-18

3.12 Roedd llythyr cylch gwaith Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar 17 Chwefror 2017 yn amlinellu rôl y Comisiwn mewn perthynas ag agenda strategol Llywodraeth Cymru a'r hyn y disgwylir i'r Comisiwn ei gyflawni er mwyn helpu'r llywodraeth i gyflawni ei nodau. Pennodd y llythyr cylch gwaith yr amcanion penodol canlynol ar gyfer y Comisiwn ar gyfer 2017-18:

- Dechrau'r rhaglen arolygon etholiadol gyda'r nod o gwblhau pob un o'r 22 arolwg yn unol â'r amserlen gyhoeddedig.
- Paratoi arweiniad i brif gynghorau ar gynnal arolygon cymunedol.
- Cadw ffiniau prif ardaloedd dan arolwg.
- Sicrhau y caiff pob agwedd ar yr arolygon eu sicrhau o ran eu hansawdd.
- Adolygu a gwella llywodraethu corfforaethol y Comisiwn yn barhaus a cheisio gwerth am arian wrth gaffael gwasanaethau.

Mae'r gweithgareddau a fydd yn cyflawni amcanion yn y meysydd hyn dros y deuddeng mis nesaf wedi'u cynnwys yn Adran 5, Gwaith y Comisiwn yn ystod 2017-18.

4. RHEOLAETH GORFFORAETHOL: POLISIÂU AC ARFER

Dogfen Fframwaith

- 4.1 Mae'r Ddogfen Fframwaith yn disgrifio'r berthynas rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru ac mae'n mynnu bod Cynlluniau Gweithredol Blynyddol, Cynlluniau Corfforaethol ac Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru at ddibenion cynllunio, cyllidebu ac asesu perfformiad. Caiff cyfarfodydd cyswllt chwarterol eu cynnal gydag isadran noddi Llywodraeth Cymru. Mae'r Comisiwn hefyd yn cyfarfod â'r Gweinidog i drafod cynnydd.
- 4.2 Mabwysiadwyd Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol a chyhoeddir Cofrestr o fuddiannau ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol y Comisiynwyr ar wefan y Comisiwn (www.cffdl-cymru.gov.uk). Ceir cod ymddygiad ar gyfer staff y Comisiwn hefyd.
- 4.3 Mae'r Comisiwn wedi penodi Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg, sy'n cael ei gadeirio gan Ddirprwy Gadeirydd y Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi penodi aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg.
- 4.4 Mabwysiadwyd arferion gwaith sy'n cydsynio ag egwyddorion gonestrwydd, ymgynghori a chymwynasgarwch. Er enghraifft, mae'r Comisiwn yn rhoi cyhoeddusrwydd eang i'w fwriad i gynnal pob arolwg ac yn ysgrifennu at yr awdurdod lleol dan sylw, ac yn ymweld ag ef, i drafod yr arolwg a gwahodd ei sylwadau cychwynnol. Ar gyfer pob arolwg, mae'r Comisiwn yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg ar ei gynigion drafft a'i gynigion terfynol, a darperir digon o gopiâu o'r adroddiadau i alluogi iddynt gael eu dosbarthu am ddim i bob aelod o'r prif gynghorau a'r cynghorau cymuned y mae'r cynigion yn effeithio arnynt, a llyfrgelloedd lleol. Mae nifer o gopiâu ar gael hefyd i drigolion lleol ar gais. Mae gwefan y Comisiwn: www.cffdl-cymru.gov.uk yn rhoi gwybodaeth am y Comisiwn, cynnydd yr arolygon a chyfle i weld adroddiadau.
- 4.5 Ar gyfer pob arolwg, penodir un o'r Comisiynwyr yn Gomisiynydd Arweiniol ar gyfer yr arolwg hwnnw. Rôl y Comisiynydd Arweiniol yw annog cynghorau i ymgysylltu â'r broses ar lefel uchel trwy gyfarfodydd wyneb-yn-wyneb ag uwch aelodau a staff lle bo hynny'n briodol trwy gydol y broses arolygu.

Archwilio

- 4.6 Mae'r Comisiwn yn ymroddedig i gyflawni gwerth am arian wrth brynu nwyddau a gwasanaethau. Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian, mae cyfres gynhwysfawr o gyfarwyddiadau desg ar waith sy'n ymwneud â systemau a gweithdrefnau. Archwilwyr mewnol y Comisiwn yn ystod 2016-17 oedd Deloitte LLP. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cynnal yr archwiliad allanol o gyllid y Comisiwn ac nid oedd yr adroddiad dilynol yn cynnwys cafeat nac amodau.

Y Cynllun Iaith Gymraeg

- 4.7 Mae gan y Comisiwn Gynllun Iaith Gymraeg, sy'n amlinellu, mewn mesurau manwl, ymrwymiad y Comisiwn i'r egwyddor, wrth gynnal ei fusnes cyhoeddus yng

Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Darperir copi o'r Cynllun ar gais neu gellir ei weld ar wefan ddwyieithog y Comisiwn.

- 4.8 Mae Cadeirydd y Comisiwn yn siaradwr Cymraeg rhugl, ac mae'r Comisiwn wedi ei benodi'n Hyrwyddwr y Gymraeg. Prif Weithredwr y Comisiwn sy'n rheoli'r holl bolisiau a mentrau newydd yn bersonol, ac ef yw swyddog monitro'r Cynllun.
- 4.9 Yn ystod y flwyddyn, cydweithredodd y Comisiwn ag archwiliad Comisiynydd y Gymraeg wrth baratoi i weithredu Safonau'r Gymraeg. Ar ddiwedd mis Mawrth, cafodd y Comisiwn hysbysiad cydymffurfio drafft mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg. Ymatebir i'r hysbysiad hwn ac ymgwymerir â gwaith yn ystod y flwyddyn sydd i ddod i sicrhau bod y Comisiwn mewn sefyllfa i fodloni'r safonau gofynnol.
- 4.10 Cyhoeddwyd holl gyhoeddiadau a gohebiaeth y Comisiwn naill ai'n ddwyieithog neu gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd. Roedd cyhoeddiadau ar wahân yr un mor hawdd â'i gilydd i'w cael (ar ffurf copi papur ac ar wefan y Comisiwn), ac roeddent o'r un safon, yr un fformat a rhoddwyd yr un amlygrwydd iddynt.
- 4.11 Mae un (10%) aelod staff amser llawn ac un (10%) aelod staff rhan-amser yn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn siarad Cymraeg, ac maent ar gael i: ateb ymholiadau gan gydweithwyr yn ymwneud â'r Gymraeg; ateb ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg; a sicrhau ansawdd cyhoeddiadau Cymraeg.
- 4.12 Rydym yn falch bod aelod arall o staff wedi ymrwymo i ddysgu Cymraeg.

Hyfforddiant a Thechnoleg Gwybodaeth

- 4.13 Mae cyrsiau hyfforddi hanfodol y mae'n ofynnol i aelodau staff eu mynychu wedi parhau eleni ac maent yn cynnwys: Meddalwedd MapInfo, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Iechyd a Diogelwch, Codi a Chario, Ymdrin â Cheisiadau am Wybodaeth, Ymwybyddiaeth Tân, Diogelwch Gwybodaeth, Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, Dysgu'r Gymraeg, Llywodraethu, Excel, Datblygu Cynaliadwy a Rheoli Prosiectau. Hefyd, cafodd dau Swyddog Arolygu newydd hyfforddiant yn benodol i'r swydd yn ymwneud â system gwybodaeth ddaearyddol y Comisiwn, a threfnwyd a chefnogwyd hyfforddiant mewnol iddynt. Rhoddwyd hyfforddiant Cymraeg ar sail anffurfiol i staff nad ydynt yn siarad Cymraeg i'w helpu i ynganu enwau lleoedd Cymraeg yn well.
- 4.14 Mae'r Comisiwn yn rhan o gynghrair Atos Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r mwyafrif o ofynion TG y Comisiwn, o ran caledwedd a meddalwedd. Ar ôl mabwysiadu strategaeth TG, gwnaed nifer o welliannau i systemau TG y Comisiwn.

Gweithdrefn Gwyno

- 4.15 Mae gan y Comisiwn Weithdrefn Gwyno a gellir gwneud cwynion (trwy lythyr, e-bost neu dros y ffôn) trwy gysylltu â'r Comisiwn. Gellir cael gwybodaeth am y modd yr ymdrinnir â chwynion yn nogfen Gweithdrefn Gwyno'r Comisiwn sydd i'w gweld ar wefan y Comisiwn (www.cffdl-cymru.gov.uk) neu gellir cael copi ohoni gan y Comisiwn yn y cyfeiriad isod. Daw gwaith y Comisiwn o fewn cylch gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

- 4.16 Cafodd y Comisiwn un gŵyn yn ystod 2016-17 gan Gyngor Gwynedd. Roedd y gŵyn yn ymwneud â chyfarfod a gynhaliwyd rhwng y Comisiwn a swyddogion o Gyngor Gwynedd. Dywedodd Prif Weithredwr y Cyngor wrth y Comisiwn ei fod wedi synnu nad oedd unrhyw un o bedwar cynrychiolydd y Comisiwn a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn gallu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ymatebodd y Comisiwn i'r Prif Weithredwr gan esbonio mai dim ond nifer gyfyngedig o staff ac aelodau sydd gan y Comisiwn sy'n siarad Cymraeg, ac yn ymddiheuro nad oedd unrhyw un ohonynt ar gael i fynychu'r cyfarfod. Derbyniodd y Cyngor ymddiheuriad ac esboniad y Comisiwn, a datgan nad oedd yn bwriadu mynd a'r mater ymhellach. Ni chafwyd unrhyw gwynion yn ystod 2015-16.

Polisi Gwybodaeth

- 4.17 Sicrhaodd y Comisiwn fod cymaint o wybodaeth ag sy'n ymarferol bosibl ar gael i'r cyhoedd drwy ei wefan, ac mae'r wybodaeth hon yn cyfateb yn bennaf i hynny a bennir yn yr arweiniad a gynhwysir yn Nogfen Ddiffinio Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Trefnir bod unrhyw wybodaeth a bennir yn Nogfen Ddiffinio Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth nad yw ar gael yn hawdd ar wefan y Comisiwn, ar gael ar gais. Mae Cod Ymarfer y Comisiwn ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn mynnu bod pob cais am wybodaeth a gwmpesir gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cael ei fodloni cyn pen 15 diwrnod gwaith. Yn 2016-17, cafwyd 5 cais am wybodaeth ac ymatebwyd i bob un ohonynt (100%) cyn pen 15 diwrnod gwaith o dderbyn y cais. Mae hyn o gymharu â 2015-16, pan gafwyd 5 cais am wybodaeth, ac y darparwyd 100% ohonynt cyn pen 15 diwrnod gwaith o dderbyn y cais.

Rheoli Data Personol

- 4.18 Cymerodd y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru bob cam rhesymol i warchod y data personol a gafwyd gan ei randdeiliaid a chyflogeion wrth gyflawni ei weithgareddau busnes. Mae rheolaethau data personol yn cynnwys cyfrineiriau ar yr holl gronfeydd data sy'n cynnwys data personol a sensitif, cyfyngu ar fynediad i ddata, cadw data papur mewn cypyrddau cloëdig a sicrhau bod protocolau trin data ar waith.

Yn ystod 2016-17, bu un digwyddiad diogelwch yn unig. Digwyddodd hyn pan anfonwyd Cynllun Parhad Busnes y Comisiwn, a oedd yn cynnwys rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost personol aelodau staff ac aelodau'r Comisiwn, i'r cyfeiriad e-bost anghywir yn anfwriadol. Yn yr achos hwn, cysylltodd y Comisiwn â'r derbynnydd er mwyn i'r e-bost a'r atodiad gael eu dileu. (2015-16 - nid oedd unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch data).

Rhoddion a Lletygarwch

- 4.19 Mae gan y Comisiwn Bolisi Rhoddion a Lletygarwch, ac mae'n gweithredu cofrestr rhoddion a lletygarwch i gofnodi cynigion o roddion neu wobrau yr amcangyfrifir eu bod yn werth £5 neu fwy, neu lletygarwch, fel cinio gwaith, cinio ysgafn neu swper anorfod wrth fynychu cyfarfodydd cyrff cyhoeddus eraill, cynhadledd neu seminar a fynychwyd gan amrywiaeth o gyfranogwyr sydd â gwerth amcangyfrifedig o £20 neu fwy. Yn ystod 2016-17, cynigiwyd lletygarwch anghysylltiedig neu roddion i aelodau a staff ar 4 achlysur. Cafodd pob un o'r cynigion hyn, a oedd â gwerth

amcangyfrifedig o dros £216, eu derbyn (2015-16: cafodd cynigion o letygarwch ar 11 achlysur, a oedd â chyfanswm gwerth amcangyfrifedig o £368, eu derbyn).

5. GWAITH Y COMISIWN YN YSTOD 2017-18

Arolygon o Drefniadau Etholiadol

- 5.1 Dechreuodd y Comisiwn ei arolwg o'r 22 prif awdurdod yng Nghymru yn Ionawr 2017, a bydd hyn yn parhau trwy gydol 2017-18.

Arolwg o'r Ffiniau Tua'r Môr

- 5.2 Bydd y Comisiwn yn parhau â'i arolwg o'r ffiniau tua'r môr ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe, a disgwylir i'r cynigion drafft gael eu cyhoeddi ym Mai 2017, a'r cynigion terfynol yn ystod hydref 2017.

Arolygon Cymunedol

- 5.3 Bydd y Comisiwn yn ymgymryd â'i rôl mewn unrhyw arolygon cymunedol yn y dyfodol y cânt eu lansio gan brif gynghorau Cymru. Bydd y Comisiwn yn rhoi cyngor ac arweiniad fel bo'n briodol i brif gynghorau sy'n ymgymryd ag Arolygon Cymunedol.

Llywodraethu Corfforaethol

- 5.4 Fel rhan o'r broses o lunio'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, mae'n ofynnol llunio Datganiad Llywodraethu a ategir gan Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg. Bob tri mis, bydd y Prif Weithredwr yn asesu prosesau'r Comisiwn ar gyfer llunio'r Datganiad Llywodraethu.
- 5.5 Bydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn cyfarfod ym mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2017 ac ym mis Chwefror yn 2018 i fonitro a gwerthuso'r trefniadau cyffredinol ar gyfer llywodraethu a rheoli risg.
- 5.6 Caiff Risgiau Gweithredol eu hasesu'n barhaus mewn cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd rheolwyr, a byddant yn cael eu cynnwys yn y Risgiau Corfforaethol i'w hystyried ym mhob un o gyfarfodydd y Comisiwn, yn ôl yr angen.

Cyfathrebu

- 5.7 Bydd strategaeth gyfathrebu'r Comisiwn yn cael ei hadolygu yn sgil newidiadau yn deillio o'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru).

Caffael

- 5.8 Bydd contractau a threfniadau caffael presennol yn cael eu monitro i sicrhau bod gwariant yn darparu gwerth am arian.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

- 5.9 Bydd y Comisiwn yn ceisio rhoi blaenoriaeth i gyfle cyfartal wrth wneud penodiadau neu secondiadau i staff y Comisiwn. Fel rhan o'i bolisi i hyrwyddo cydraddoldeb, mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu polisiau i ystyried hyn ac yn rhoi ei hymrwymiaidau i gydraddoldeb ar waith.
- 5.10 Yn unol â'r fenter hon, mae'r Comisiwn yn cadw'r holl bolisiau a gweithdrefnau mewnol dan arolwg er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag arfer gorau, yn adlewyrchu amcanion Llywodraeth Cymru, ac y caiff yr effaith ar gydraddoldeb ei hasesu.
- 5.11 Caiff aelodau staff eu hannog i wella eu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth ac i fod yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth drwy ymgymryd â hyfforddiant priodol a rhoi'r egwyddorion y maent wedi eu dysgu ar waith.
- 5.12 Mae'r Comisiwn yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus. Bydd y Comisiwn yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio cyflawni'r nod hwn mewn perthynas â recriwtio aelodau newydd i'r Comisiwn, yn ôl yr angen. Caiff yr ymrwymiad hwn ei gymhwyso i'r broses o benodi aelodau annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg hefyd.

Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a Lles

- 5.13 Nod y Comisiwn yw sicrhau, wrth wneud penderfyniad, y caiff effaith y penderfyniadau hynny ar y bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol eu hystyried – nid yw'r Comisiwn am i'w weithredoedd heddiw gael effaith niweidiol ar bobl yfory. Felly, wrth wneud penderfyniadau, rydym: yn ystyried effeithiau tymor hir ein penderfyniadau; yn ceisio cydweithio'n dda â phobl, cymunedau a'n gilydd; yn ceisio atal problemau posibl; ac yn mabwysiadu dull mwy integredig, drwy wrando ar yr hyn y mae gan bartïon â buddiant i'w ddweud.
- 5.14 Mae ymrwymiad ac ymwybyddiaeth o gaffael cynaliadwy o fewn y Comisiwn eisoes, sy'n cael eu hategu gan ymagwedd gorfforaethol tuag at Ddatblygu Cynaliadwy. Ymgymeryd â gwaith i amlygu blaenoriaethau caffael cynaliadwy, fel defnyddio llai o adnoddau, rheolaeth amgylcheddol gadarn a datblygu cyflenwyr. Caiff y gwaith hwn ei danategu gan Bolisi Amgylcheddol y Comisiwn a'i ymrwymiad i Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd (Lefel 2).
- 5.15 Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, nod y Comisiwn yw cyflawni Gwobr Iechyd y Gweithle Bach.

Yr Iaith Gymraeg

- 5.16 Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg, ac anfonir copi ohono at Gomisiynydd y Gymraeg.
- 5.17 Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd y Comisiwn yn llunio Cynllun Pontio i helpu i symud o'r Cynllun Iaith Gymraeg i Safonau'r Gymraeg. Bydd y Comisiwn yn

parhau i fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd ar Hysbysiad Cydymffurfio Comisiynydd y Gymraeg, a disgwylir y bydd hyn wedi'i gwblhau yn ystod haf 2017.

Steve Halsall
Prif Weithredwr
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
CAERDYDD
CF24 0BL

Ffôn: 029 20464819
Ffacs: 029 20464823
E-bost: cffdl.cymru@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: www.cffdl-cymru.gov.uk

6. ADRODDIAD CYFLOGAU A STAFF

Polisi Tâl

- 6.1 Caiff y pwerau i wneud taliadau i Aelodau'r Comisiwn eu hamlinellu yn Atodlen 8 paragraff 2 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Trosglwyddwyd y swyddogaeth hon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan OS 1999 Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Rhif 672. Caiff cynnydd i dâl Cadeiryddion ac Aelodau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ei awdurdodi gan Brif Weinidog Cymru.
- 6.2 Mae'r Comisiwn hefyd yn gyfrifol am dalu tâl aelodau'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfraddau dyddiol a bennir gan Swyddfa'r Cabinet a'u cymeradwyo gan Drysorlys EM. Caiff cost y taliadau hyn ei fodloni drwy'r cyllid a ddarperir gan Swyddfa'r Cabinet a ddisgrifir ar dudalen 5 a'i ddatgelu yn y tabl costau staff ar dudalen 28.
- 6.3 Caiff codiadau cyflog blynyddol eu cymhwyso'r unol â'r rhai a gytunir ar gyfer staff Llywodraeth Cymru, ac nid oes unrhyw fonysau perfformiad yn berthnasol.
- 6.4 Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn destun archwiliad ac eithrio'r ffigurau yn ymwneud â chyfansoddiad staff ac absenoldeb salwch.

Tâl (gan gynnwys cyflog) a hawliau pensiwn

- 6.5 Mae'r adrannau canlynol yn darparu manylion am gyflog a buddion pensiwn rheolwyr uchaf ac aelodau bwrdd y Comisiwn.

Cyflog Aelodau'r Comisiwn

| Name | 2016-17 Ffioedd £'000 | 2015-16 Ffioedd £'000 |
|--|-----------------------------|-----------------------------|
| Mr O Watkin (Cadeirydd – CFfDLC) | 7 | 6 |
| Mr C Stradling (Dirprwy Gadeirydd – CFfDLC) | 4 | 4 |
| Mr D Powell (Aelod – CFfDLC) | 4 | 4 |
| Mrs J May (Aelod – CFfDLC) | 3 | 2 |
| Mr M T Joloza (Aelod – CFfDLC) | 4 | 3 |
| Mrs J James (Aelod Annibynnol y Pwyllgor Archwilio – CFfDLC) | 1 | 1 |
| Mr P Loveluck (Aelod – Comisiwn Ffiniau i Gymru) | 6 | 6 |
| Yr Athro R McNabb (Aelod – Comisiwn Ffiniau i Gymru) | 3 | 4 |

- 6.6 Roedd cyflog aelodau'r Comisiwn yn ymwneud yn gyfan gwbl â ffioedd ar gyfer gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn. Nid yw cyfraniadau pensiwn yn daladwy. Tâl Cadeirydd y Comisiwn oedd £6,588 (2015-16: £6,051). Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd ex-officio y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mae Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru, sy'n llywyddu dros y cyfarfodydd, yn Farnwr yr Uchel Lys: Yr Anrhydeddus Meistr Ustus Lewis. Mae swydd Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn swydd ddi-dâl, a thelir treuliau yn unig. Tâl yr Aelod o'r Comisiwn Ffiniau i Gymru, Mr Paul Loveluck oedd £6,066. Roedd tâl Aelodau

eraill y Comisiwn a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru, ac Aelod Annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn llai na £5,000 yr un.

- 6.7 Yn ystod 2016-17, cyflogwyd tri Chomisiynydd Cynorthwyol gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru hefyd, sef Mr Emyr Wyn Jones, Mr Gerard Elias a Mr Rhodri Lewis, ar sail dros dro i oruchwylio Gwrandawiadau Cyhoeddus a gynhaliwyd fel rhan o'r Arolwg o Etholaethau Seneddol yng Nghymru yn 2018. Cyflog y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer 2016-17 oedd £8,846, £7,835 a £7,583.

Cyflog a Hawliau Pensiwn Uwch Reolwyr

| Cyfanswm cyflog unigol | | | | | | |
|--|----------------|---------|--|---------|------------------|---------|
| Swyddogol | Cyflog (£'000) | | Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) ¹ | | Cyfanswm (£'000) | |
| | 2016-17 | 2015-16 | 2016-17 | 2015-16 | 2016-17 | 2015-16 |
| Mr S R Halsall (Prif Weithredwr) | 55-60 | 50-55 | 42,000 | 55,000 | 100-105 | 105-110 |
| Mr M Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr) | 40-45 | 35-40 | 21,000 | 24,000 | 60-65 | 60-65 |

¹ Caiff gwerth y buddion pensiwn a gronwyd yn ystod y flwyddyn ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol i'r pensiwn wedi'i luosi ag 20) a (chynnydd gwirioneddol unrhyw gyfandaliad) llai (cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

Nifer yr Uwch Reolwyr

- 6.8 Cyflogodd y Comisiwn 2 uwch reolwr yn ystod 2016-17 (2015-16: 2 uwch reolwr), sef Prif Weithredwr a Dirprwy Brif Weithredwr. Ystyrir bod Prif Weithredwr y Comisiwn yn gyfwerth â Band Gweithredol 2 Llywodraeth Cymru, ac ystyrir bod Dirprwy Brif Weithredwr y Comisiwn yn gyfwerth â Band Rheoli 1 Llywodraeth Cymru.

Cyflog

- 6.9 Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog crynswth a goramser. Derbyniodd naw aelod o staff lwfans recriwtio a chadw am y cyfnod lonawr i Fawrth 2017. Yn ystod 2016-17, ni wnaed unrhyw daliadau mewn perthynas â thâl perfformiad neu fonysau. Mae'r adroddiad hwn wedi ei seilio ar daliadau cronedig a wnaed gan y Comisiwn, ac y cofnodwyd felly yn y cyfrifon hyn.

Buddion mewn Nwyddau

- 6.10 Ni chafodd unrhyw un o Aelodau na staff y Comisiwn unrhyw fuddion mewn nwyddau yn ystod 2016-17 (nac yn ystod 2015-16).

Bonysau

- 6.11 Ni chafodd unrhyw un o Aelodau na staff y Comisiwn unrhyw fonysau yn ystod 2016-17 (nac yn ystod 2015-16).

Datgeliad Cyflog Teg

- 6.12 Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yn eu sefydliad a chyflog canolrifol gweithlu'r sefydliad.

- 6.13 Cyflog wedi'i fandio y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf yn y Comisiwn yn y flwyddyn ariannol 2016-17 oedd £55-60,000 (2015-16: £50-55,000). Roedd hyn

2.1 gwaith (2015-16: 2.2 gwaith) yn fwy na chyflog canolrifol y gweithlu, sef £26,667 (2015-16: £24,356).

6.14 Yn 2016-17, ni chafodd unrhyw (2015-16, 0) gyflogai gyflog uwch na'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf. Roedd cyflogau'n amrywio o £22,575 i £56,900 (2015-16: £21,500 i £54,150).

6.15 Mae'r cyfanswm cyflog yn cynnwys cyflog, lwfansau cyfunol, tâl anghyfunol yn gysylltiedig â pherfformiad, buddion mewn nwyddau yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

Buddion Pensiwn

| Enw | Pensiwn cronodig wrth gyrraedd oed pensiwn ar 31/3/17 a'r cyfandaliad cysylltiedig | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig wrth gyrraedd oed pensiwn | CETV ar 31/3/17 | CETV ar 31/3/16 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV | Cyfraniadau'r cyflogwr i gyfrifon pensiwn partneriaeth |
|--------------------------------------|--|---|-----------------|-----------------|--------------------------------|--|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | |
| Mr S R Halsall Prif Weithredwr | 30 – 35 ynghyd â chyfandaliad o 50 – 55 | 0 – 2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 – 2.5 | 699 | 661 | 40 | - |
| Mr M Redmond Dirprwy Brif Weithredwr | 5 – 10 | 0 – 2.5 | 65 | 54 | 7 | - |

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

6.16 Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd i weision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) neu **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa ag oedran pensiwn arferol sy'n gyfwerth ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, mae'r holl weision sifil sydd newydd eu penodi a mwyafrif y rhai sydd eisoes yn gwasanaethu, wedi ymuno ag **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan PCSPS bedair adran: tair ohonynt sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (**classic**, **premium** neu **classic plus**) ag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (**nuvos**), sydd ag oedran pensiwn arferol o 65.

6.17 Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff cost y buddion eu talu gan symiau arian y mae'r Senedd yn pleidleisio arnynt bob blwyddyn. Caiff y pensiynau sy'n daladwy o dan **classic**, **premium**, **classic plus**, **nuvos** ac **alpha** eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd ac

13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn symud i **alpha** rywbyrd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Caiff buddion PCSPS yr holl aelodau sy'n symud i **alpha** eu 'bancio', a bydd buddion y rhai hynny sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol PCSPS wedi'u seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** – fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac **alpha**, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' â chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

- 6.18 Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 3% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau **classic** (ac aelodau **alpha** a oedd yn aelodau **classic** yn syth cyn ymuno ag **alpha**) a rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau **premium, classic plus, nuvos** a holl aelodau eraill **alpha**. Mae buddion **classic** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o'r pensiwn cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Ar gyfer **premium**, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, ni cheir unrhyw gyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae'r cynllun **classic plus** yn gynllun hybrid gyda buddion mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun **classic** a buddion mewn perthynas â gwasanaeth o fis Hydref 2002 ymlaen yn cael eu cyfrifo fel y cynllun **premium**. Mae aelod o gynllun **nuvos** yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn pensiwn honno a chaiff y pensiwn croniedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion **alpha** yn cronni mewn ffordd debyg i'r cynllun **nuvos**, oni bai bod y gyfradd cronni yn 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (gohirio) i ddarparu cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.
- 6.19 Trefniant pensiwn rhanddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn **partneriaeth**. Gwna'r cyflogwr gyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oed yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewiswyd gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond os yw'n cyfrannu, bydd y cyflogwr yn gwneud tâl cyfatebol hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost budd risg a ddarperir yn ganolog (pe byddai'r cyflogai yn marw yn y swydd neu'n ymddeol oherwydd afiechyd).
- 6.20 Y pensiwn croniedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl iddo/iddi orffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Yr oedran pensiwn ar gyfer aelodau cynlluniau **classic, premium a classic plus** yw 60 oed, 65 oed ar gyfer aelodau cynllun **nuvos**, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** – fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac **alpha**, y

ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwch y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Mae rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

- 6.21 Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafu ar ôl asesiad actiwaraid o fuddiannau cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a gaiff eu priso yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd ar lefel uwch y mae datgeliad yn gymwys iddo.
- 6.22 Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr unigolyn i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETVau yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan fydd buddiannau pensiwn yn cael eu codi.

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

- 6.23 Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau priso'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

lawndal ar gyfer colli swydd

- 6.24 Ni wnaed unrhyw daliadau mewn perthynas â cholli neu derfynu swydd yn ystod 2016-17 (ac ni wnaed unrhyw daliadau yn ystod 2015-16).

Niferoedd Staff a Chostau Cysylltiedig

| | 2017 Staff a gyflogir yn barhaol £ | 2017 Secondiadau o'r tu allan £ | 2017 Staff Asiantaeth £ | 2017 Aelodau'r Comisiwn £ | 2017 Cyfanswm £ |
|----------------------------|--|--|----------------------------------|------------------------------------|-----------------------|
| Cyflogau | 288,533 | 35,271 | 27,911 | 56,840 | 408,555 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 26,192 | 2,412 | - | 3,019 | 31,623 |
| Costau pensiwn | 59,907 | 6,117 | - | - | 66,024 |
| Cyfanswm Costau Net | 374,632 | 43,800 | 27,911 | 59,859 | 506,202 |

Nifer yr unigolion a gyflogir ar gyfartaledd

Roedd nifer gyfartalog yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl y categorïau hyn fel a ganlyn:

| | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer |
|--------------------------|-------|-------|-------|-------|-------|
| Cyflogir yn uniongyrchol | 9 | - | - | 9 | 18 |
| Arall | - | 1 | 1 | 1 | 3 |
| Cyfanswm y Staff | 9 | 1 | 1 | 10 | 21 |

Cymaryddion (ailldatganwyd):

| | 2016 Staff a gyflogir yn barhaol £ | 2016 Secondiadau o'r tu allan £ | 2016 Staff Asiantaeth £ | 2016 Aelodau'r Comisiwn £ | 2016 Cyfanswm £ |
|---------------------------|---|--|----------------------------------|------------------------------------|-----------------------|
| Cyflogau | 268,070 | 15,108 | - | 30,087 | 313,265 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 18,266 | 650 | - | 601 | 19,517 |
| Costau pensiwn | 56,287 | 3,022 | - | - | 59,309 |
| Cyfanswm Costau Net | 342,623 | 18,780 | - | 30,688 | 392,091 |

Nifer yr unigolion a gyflogir ar gyfartaledd

Roedd nifer gyfartalog yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl y categorïau hyn fel a ganlyn:

| | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer |
|--------------------------|-------|-------|-------|-------|-------|
| Cyflogir yn Uniongyrchol | 9 | - | - | 7 | 16 |
| Arall | - | 1 | - | - | 1 |
| Cyfanswm y Staff | 9 | 1 | - | 7 | 17 |

6.25 Mae'r costau uchod yn cynnwys £165,100 (2015-16; £63,500) mewn perthynas ag adnoddau staff a £35,870 (2015-16; £9,605) mewn perthynas â thâl aelodau a wariwyd ar ran y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Roedd y costau uwch o gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn sgil cynnydd sylweddol yn y gwaith a wnaed ar gyfer yr Arolwg o Etholaethau Seneddol yng Nghymru yn 2018.

6.26 Ar gyfer 2016-17, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £59,906 yn daladwy i PCSPS ac **alpha** (2015-16 £56,287) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 20.0% i 24.5% (2015-16: 20.0% i 24.5%) o dâl pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Fel arfer, mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Diwygiwyd y bandiau cyflog a chyfraddau'r cyfraniadau ar gyfer 2016-17, a byddant yn cael eu diwygio eto ar gyfer 2017-18. Mae cyfraddau'r cyfraniadau yn adlewyrchu buddion wrth iddynt gael eu cronni, yn hytrach na phan gaiff y costau eu cronni'n wirioneddol, ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol o'r cynllun. Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliad â chyfraniad gan y cyflogwr. Nid oes unrhyw un o aelodau staff y Comisiwn wedi dewis pensiwn partneriaeth.

Polisi Cyflogeion

6.27 Mae'r Comisiwn yn cynnwys craidd o staff a gyflogir yn uniongyrchol, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Rheolwr Cyllid, Rheolwr Cymorth Busnes, pedwar Swyddog Arolygu ac un Swyddog Cymorth Tîm. Mae gan y staff a gyflogir yn uniongyrchol fandiau cyflog a thelerau ac amodau gwasanaeth yn gyfatebol i staff Llywodraeth Cymru o'r un graddau. Daeth un aelod staff ar secondiad o'r tu allan i'r Comisiwn o un o adrannau eraill y llywodraeth. Mae aelodau staff sydd ar secondiad o adrannau eraill y llywodraeth yn parhau i fod ar yr un graddfeydd cyflog ac i fod â'r un telerau ac amodau â'u rhiant-adran tra eu

bod wedi eu cyflogi gan y Comisiwn. Mae'r polisi hwn yn galluogi'r Comisiwn i gadw craidd o staff sydd â gwybodaeth am systemau a gweithdrefnau sy'n hanfodol i'r genhadaeth wrth fodloni unrhyw gynnydd i'r llwyth gwaith arolygu yn effeithlon.

- 6.28 Mae gan y Comisiwn ystod eang o bolisiâu sy'n adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol, a'i nod yw sicrhau y caiff staff eu cadw a'u cymell. Caiff y polisiâu hyn eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff pob polisi ei wirio o ran cydraddoldeb cyn ei roi ar waith. Achredwyd y Comisiwn â'r safon Buddsoddwyr Mewn Pobl yn gyntaf yn 2009. Roedd yr achrediad hwn yn destun adolygiad llawn yn ystod 2015-16, a ddaeth i'r casgliad y dylai'r Comisiwn gadw ei achrediad BMP.

Cyfansoddiad Staff

- 6.29 Yn ystod 2016-17, roedd y Comisiwn yn cyflogi 21 aelod staff cyfwerth ag amser llawn ac aelodau'r Comisiwn (gan gynnwys staff asiantaeth a staff dros dro), yr oedd 5 ohonynt yn fenywod ac 16 ohonynt yn wrywod (2015-16: 17 aelod staff ac aelodau'r comisiwn, 5 ohonynt yn fenywod, 12 ohonynt yn wrywod). Mae tîm rheoli'r Comisiwn yn cynnwys 3 aelod staff gwrywaidd ac 1 aelod staff benywaidd. Mae'r tabl isod yn dangos niferoedd y staff cyfwerth ag amser llawn ar 31 Mawrth 2017.

| | Cymorth Tîm | Band Rheoli 3 (Swyddog Gweithredol) | Band Rheoli 2 (Swyddog Gweithredol Uwch) | Dirprwy Brif Weithredwr (Uwch-swyddog Gweithredol) | Prif Weithredwr (G7) | Aelodau'r Comisiwn | Cyfanswm |
|---------|----------------|---|---|---|----------------------------|-----------------------|----------|
| Gwrywod | 1 | 4 | 1 | 1 | 1 | 8 | 16 |
| Benywod | 2 | - | 1 | - | - | 2 | 5 |

Absenoldeb Salwch

- 6.30 Yn ystod 2016-17, roedd saith o aelodau staff parhaol y Comisiwn yn absennol oherwydd salwch am gyfanswm o 83 diwrnod (2015-16 – roedd wyth o aelodau staff parhaol y Comisiwn yn absennol oherwydd salwch am gyfanswm o 145 diwrnod).

Cyflogi oddi ar y gyflogres

- 6.31 Caiff yr holl staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiwn ac aelodau'r Bwrdd eu talu drwy system gyflogres y Comisiwn ac maent yn destun i'r cyfraniadau treth ac Yswiriant Gwladol priodol. Mae'r holl staff sydd ar secondiad i'r Comisiwn o adrannau eraill y llywodraeth yn aros ar system gyflogres eu rhiant-adrannau.
- 6.32 Yn ystod 2016-17 gwnaeth y Comisiwn daliadau oddi ar y gyflogres i 2 aelod o staff dros dro a gyflogwyd drwy asiantaeth. Cymerodd y Comisiwn gamau i gadarnhau bod y cyfraniadau treth ac Yswiriant Gwladol priodol yn cael eu talu drwy ofyn am weld slip cyflog yr aelodau staff asiantaeth a thrwy ofyn am gadarnhau drwy'r asiantaeth; cafwyd y cadarnhad hwnnw. Cyflogwyd y ddau aelod staff asiantaeth am gyfnodau fwy na 6 mis, ond talwyd llai na £220 y diwrnod iddynt. Ni wnaed unrhyw daliadau oddi ar y gyflogres i unrhyw aelodau staff neu aelodau'r Bwrdd yn ystod 2015-16.

7. DATGANIAD ARIANNOL

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 o dan baragraff 19 Rhan 2 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Cyflogau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd.

Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, yn unol ag adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed yn ôl hynny, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Cyngor Adrodd Ariannol.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatgan perthnasol, p'un a achoswyd hynny trwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o b'un a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Comisiwn, ac a ydynt wedi cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymolrwydd amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y Comisiwn; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ogystal, rwy'n cael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol y cymhwyswyd y gwariant a'r incwm at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd er mwyn amlygu anghysonderau sylweddol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd, ac amlygu unrhyw wybodaeth yr ymddengys ei bod yn sylweddol anghywir ar sail y wybodaeth a gafwyd gennyf wrth gwblhau'r archwiliad, neu'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gam-ddatganiad neu anghysondeb sylweddol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif a'm hadroddiad.

Barn ar y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Comisiwn ar 31 Mawrth 2017 a'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac

- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a roddwyd o dan adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyriaeth berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Cyflogau sydd i'w harchwilio wedi ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion rwyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ei gyloch mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiad ag arweiniad Gweinidogion Cymru;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion neu'r adroddiadau cyfrifyddu;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a nodwyd gan Weinidogion Cymru ynghylch cyflogau a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae'n ofynnol i mi eu cael ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
2 Awst 2017

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am gynnal a chadw gwefan Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a'i chywirdeb; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilydd yn cynnwys ystyried y materion hynny ac, yn unol â hynny, nid yw archwilydd yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw newidiadau y gellid fod wedi eu gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddol yw'r fersiwn hon. Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

DATGANIAD O WARIANT NET CYNHWYSFAWR ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

| | Nodiadau | 2017 £ | 2016 £ |
|---|-------------|-------------------------|------------------|
| Incwm | 3 | (416,095) | (120,051) |
| Cyfanswm yr Incwm Gweithredu | | <u>(416,095)</u> | <u>(120,051)</u> |
| COSTAU | | | |
| Costau staff | Tabl tud.28 | 506,202 | 392,091 |
| Gwariant gweithredu arall | 2 | 356,221 | 192,270 |
| Cyfanswm y Gwariant Gweithredu | | <u>862,423</u> | <u>584,361</u> |
| Gwariant Gweithredu Net | | <u>446,328</u> | <u>464,310</u> |
| Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y Flwyddyn | | <u>446,328</u> | <u>464,310</u> |

Mae'r holl weithgareddau wedi eu dosbarthu yn rhai parhaus

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 35 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

DATGANIAD O'R SEFYLLFA ARIANNOL ar 31 Mawrth 2017

| | | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|----------|------------------------|------------------------|
| | Nodiadau | £ | £ |
| ASEDAU NAD YDYNT YN GYFREDOL | | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer | 4 | <u>20,541</u> | <u>34,272</u> |
| Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn gyfredol | | <u>20,541</u> | <u>34,272</u> |
| ASEDAU CYFREDOL | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 6 | <u>11,590</u> | <u>4,614</u> |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 7 | <u>26,982</u> | <u>17,418</u> |
| Cyfanswm yr asedau cyfredol | | <u>38,572</u> | <u>22,032</u> |
| Cyfanswm yr asedau | | <u>59,113</u> | <u>56,304</u> |
| RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 8 | <u>(61,905)</u> | <u>(26,916)</u> |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol | | <u>(61,905)</u> | <u>(26,916)</u> |
| Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | | <u>(2,792)</u> | <u>29,388</u> |
| ARIANNWYD GAN: | | | |
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | | <u>(2,792)</u> | <u>29,388</u> |
| | | <u>(2,792)</u> | <u>29,388</u> |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 35 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn gan y Swyddog Cyfrifyddu i'w cyhoeddi ar 26 Gorffennaf 2017

STEVE HALSALL
Swyddog Cyfrifyddu
26 Gorffennaf 2017

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

DATGANIAD LLIFOEDD ARIAN

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

| | Nodiadau | 2017 | 2016 |
|---|----------|-------------------------|------------------|
| | | £ | £ |
| Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu | | | |
| Costau gweithredu net | | (446,328) | (464,310) |
| Addasiadau ar gyfer: | | | |
| Lleihad / (Cynnydd) mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | | (6,976) | (2,036) |
| Dibrisiant | 4 | 14,884 | 14,654 |
| Cynnydd / (Lleihad) mewn symiau masnach sy'n daladwy | | 34,989 | (17,440) |
| All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu | | <u>(403,431)</u> | <u>(469,132)</u> |
| Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | 4 | (1,153) | (1,206) |
| All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi | | <u>(1,153)</u> | <u>(1,206)</u> |
| Llifoedd arian o weithgareddau ariannu | | | |
| Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru | | <u>414,148</u> | <u>451,334</u> |
| Cyllido net | | | |
| Cynnydd /(lleihad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod | 7 | 9,564 | (19,004) |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod | 7 | 17,418 | 36,422 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod | | <u>26,982</u> | <u>17,418</u> |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 35 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

DATGANIAD O NEWIDIADAU YN ECWITI TRETHDALWYR ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

| | Cronfa wrth Gefn Gyffredinol* |
|--|-------------------------------------|
| | £ |
| Balans ar 31 Mawrth 2015 | 42,364 |
| Newidiadau mewn polisi cyfrifyddu | - |
| Balans a ailddatganwyd ar 1 Ebrill 2015 | <u>42,364</u> |
| | |
| Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr 2015-16 | |
| Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru | 451,334 |
| Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | (464,310) |
| Balans ar 31 Mawrth 2016 | <u>29,388</u> |
| | |
| Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2016-17 | |
| Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru | 414,148 |
| Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | (446,328) |
| Balans ar 31 Mawrth 2017 | <u>(2,792)</u> |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 35 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

* ni roddir colofn cyfanswm oherwydd dyma'r unig gronfa wrth gefn sydd gan y Comisiwn.

Mae'r gronfa wrth gefn negyddol ar 31 Mawrth 2017 a ddangosir uchod yn ganlyniad gofyniad hwyr am Gymorth Grant ychwanegol yn 2016-17 gan Lywodraeth Cymru na dderbyniwyd hyd nes 3 Ebrill 2017, ac felly ni chynhwyswyd yn y ffigur cyfanswm ar gyfer Cymorth Grant yn 2016-17 a dderbyniwyd. Nid effeithiodd hyn ar hylifedd y Comisiwn ac adferwyd balans cadarnhaol ar 3 Ebrill 2017.

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

1. DATGANIAD O BOLISIÂU CYFRIFYDDU

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth 2016-17 (FReM yn seiliedig ar IFRS) a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Mae'r polisiau cyfrifyddu sydd wedi eu cynnwys yn y FReM yn cymhwyso'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru er mwyn rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisiau penodol a fabwysiadwyd gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru isod. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

1.1 Cyfarwyddyd Cyfrifon

Paratowyd y cyfrifon yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

1.2 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratoir y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i ystyried ailbrisió eiddo, peiriannau ac offer, asedau anniriaethol a stocrestrau.

1.3 Gwariant ar Weinyddu a Rhaglenni

Dosberthir cyllid y Comisiwn a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa'r Cabinet fel cyllid ar gyfer gwariant ar raglenni gan y ddwy Adran. Ystyrir felly mai incwm a gwariant rhaglenni yw'r holl ffigurau incwm a gwariant a ddangosir ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

1.4 Prisiant Asedau nad ydynt yn Gyfredol

Caiff asedau nad ydynt yn gyfredol eu cyfalafu ar gost caffael a gosod, lle mae'r gost honno'n fwy na £500. Caiff costau meddalwedd cyfrifiadurol eu cyfrif fel costau a ysgwyddir. Caiff Eiddo, Peiriannau ac Offer eu datgan ar werth teg. Caiff costau hanesyddol wedi eu dibrisio eu defnyddio fel procsi ar gyfer gwerth teg i bob math o ased, oherwydd bod gan bob un ohonynt un ai oes ddefnyddiol fer, gwerth isel, neu'r ddau ohonynt. Yn hanfodol, caiff yr holl eiddo, peiriannau ac offer eu grwpio'n un o ddau ddosbarth - asedau TG neu Darnau Gosod, Dodrefn ac Offer.

1.5 Dibrisiant

Caiff dibrisiant asedau nad ydynt yn gyfredol ei gyfrifo i ddileu eu cost neu brisiad dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Caiff yr holl asedau nad ydynt yn gyfredol eu dibrisio dros gyfnod o bum mlynedd. Caiff dibrisiant blwyddyn lawn ei godi yn ystod y flwyddyn y'u caffaelwyd ac nid yn ystod y flwyddyn gwaredu.

1.6 **Buddion cyflogeion**

Rhoddir cyfrif am y gost o ddarparu buddion cyflogeion yn ystod y cyfnod y caiff buddion eu hennill gan gyflogeion. Darperir ar gyfer gwyliau blynyddol dros y cyfnod y mae'r gwyliau hynny'n cronni. Cyflwynwyd y polisi cyfrifyddu hwn yn 2009-10, yn unol â gofyniad IAS19, Buddion Cyflogeion.

1.7 **Cyllid**

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cael Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru i ariannu ei weithgareddau refeniw a chyfalaf cyffredinol. Yn unol â'r FreM, caiff y Cymorth Grant hwn ei ystyried yn gyllid a chaiff ei gredydu i'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol ar ôl ei dderbyn.

Caiff grantiau'r llywodraeth sy'n dderbyniadwy ar gyfer gwariant cyfalaf penodol eu credydu i Gronfa Wrth Gefn Grantiau'r Llywodraeth a'u rhyddhau i'r cyfrif datganiad costau gweithredu dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol mewn symiau cyfartal.

1.8 **Stocrestrau**

Nid yw Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cadw unrhyw stoc o werth sylweddol.

1.9 **Treth Ar Werth (TAW)**

Nid yw'r Comisiwn wedi ei gofrestru ar gyfer TAW. Mae'r holl wariant a phryniadau asedau sefydlog yn cynnwys TAW berthnasol.

1.10 **Pensiynau**

Caiff cyflogeion blaenorol a phresennol eu cynnwys yn narpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r cynllun alpha, a ddisgrifir yn yr Adroddiad Cyflogau.

1.11 **Rheoli Risg Ariannol**

Nid oes gan y Comisiwn unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu ar grantiau Llywodraeth Cymru yn bennaf ar gyfer ei ofynion arian parod. Hefyd, nid oes ganddo unrhyw adneuon sylweddol a chaiff yr holl asedau a rhwymedigaethau perthnasol eu henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg o ran cyfraddau llog neu risg arian cyfred.

1.12 **Effaith Safonau nad ydynt ar waith hyd yn hyn**

Mae Aelodau'r Comisiwn wedi ystyried effaith Safonau a Dehongliadau a gyhoeddwyd, ond nad ydynt ar waith hyd yn hyn ac nad yw'r Comisiwn wedi eu mabwysiadu'n gynnar. Heblaw IFRS 16 Prydlesi, mae Aelodau'n disgwyl na fyddai mabwysiadu'r Safonau a'r Dehongliadau hyn yn y dyfodol yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Comisiwn. Nid oes modd amcangyfrif effaith IFRS 16, a gyhoeddwyd gan IASB ond nad yw wedi ei mabwysiadu gan yr Undeb Ewropeaidd hyd yn hyn, ac a fydd yn berthnasol o 2019-20, yn rhesymol ar hyn o bryd.

1.13 Offerynnau Ariannol

Nid oes gan y Comisiwn unrhyw offerynnau ariannol sylweddol. Gall offerynnau tymor byr gynnwys arian parod, dyledwyr masnach a chredydwyr masnach. Lle y bo'n berthnasol, mae'r gwerth cyfredol yr un fath â'r gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn.

1.13.1 Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill

Nid yw symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill yn dwyn unrhyw log a chânt eu datgan ar eu gwerth enwol fel y'u gostyngwyd gan lwfansau priodol ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifedig.

1.13.2 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, adneuron tymor byr a buddsoddiadau tra hylifol tymor byr y mae'n hawdd eu trosi'n swm arian hysbys ac sy'n destun risg ansylweddol o newidiadau mewn gwerth.

1.13.3 Symiau masnach a symiau taladwy eraill

Nid yw symiau masnach a symiau taladwy eraill yn dwyn llog a chânt eu datgan ar eu gwerth enwol.

1.13.4 Benthyciadau

Nid oes unrhyw fenthyciadau neu orddrafftiau sy'n dwyn llog.

1.13.5 Lleihad

Caiff gwerth asedau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i'w ddwyn ymlaen ei adolygu ar ddyddiad pob mantolen er mwyn penderfynu a oes unrhyw arwydd o leihad. Os yw'r cyfryw arwydd yn bodoli, caiff swm adferadwy'r asedau ei amcangyfrif. Swm adferadwy ased yw'r mwyaf o'i bris gwerthu net a'i werth ar ddefnydd.

1.13.6 Caiff Asedau Ariannol a Rhwymedigaethau Ariannol sy'n deillio o gontractau ar gyfer prynu neu werthu eitemau anariannol eu cydnabod wrth iddynt ddigwydd h.y. wrth dderbyn neu ddanfôn y nwyddau neu'r gwasanaethau.

1.14 Prydlesi Gweithredu

Prydleswyd swyddfeydd y Comisiwn yn Nhŷ Hastings gan Lywodraeth Cymru am 5 mlynedd hyd at 4 Rhagfyr 2017, a'r Comisiwn sy'n talu costau'r brydles. Ystyrir bod y brydles ar swyddfeydd y Comisiwn yn Nhŷ Hastings yn brydles weithredu yn hytrach na phrydles gyllidol, oherwydd:

- nid yw perchenogaeth y swyddfeydd yn trosglwyddo i'r Comisiwn ar ddiwedd cyfnod y brydles;
- nid oes unrhyw opsiwn i brynu ar ddiwedd cyfnod y brydles;
- nid yw cyfnod y brydles yn para'r rhan fwyaf o oes economaidd yr adeilad; ac
- nid yw gwerth presennol y taliadau prydlesu lleiaf yn gyfwerth ag o leiaf holl werth teg yr adeilad.

Caiff y costau prydlesu hyn eu codi ar y datganiad costau gweithredu yn ystod y flwyddyn yr eir i'r costau hynny. Caiff y Comisiwn ei gynnwys yng nghontract partneriaeth Atos Llywodraeth Cymru i ddarparu'r holl wasanaethau TG, gan gynnwys caledwedd a meddalwedd. Fel rhan o'r cytundeb hwn, mae'r Comisiwn yn talu tâl misol i Lywodraeth Cymru ar sail nifer aelodau staff y Comisiwn sy'n defnyddio'r system Atos yn gymesur â chyfanswm nifer y defnyddwyr cyffredinol ar draws Llywodraeth Cymru. Caiff costau darparu caledwedd a meddalwedd drwy'r contract Atos eu talu gan y Comisiwn, ond asedau Llywodraeth Cymru yw'r rhain o hyd.

2. GWARIANT GWEITHREDU ARALL

| | 2017 £ | 2016 £ |
|--|-----------------------|-----------------------|
| Costau Rhedeg | | |
| Teithio a Chynhaliaeth Staff | 18,420 | 4,207 |
| Teithio a Chynhaliaeth Aelodau'r Comisiwn | 11,709 | 13,408 |
| Ffioedd Cyrsiau a Hyfforddi Staff | 7,358 | 6,382 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru - ffi archwilio flynyddol | 8,400 | 8,097 |
| Ffioedd Archwilio Mewnol | 6,229 | 6,048 |
| Cyfryngau a Hysbysebu | 19,844 | - |
| Cyfieithu | 68,931 | 8,743 |
| Argraffu, postio ac offer swyddfa | 38,188 | 15,535 |
| Ffôn a chontractau | 1,668 | 1,488 |
| Costau llety | 22,986 | 25,634 |
| Cyfreithiol a phroffesiynol | 6,814 | 6,916 |
| Costau cyfrifiadurol anghyfalafol | 78,188 | 28,928 |
| Arall | 1,896 | 1,717 |
| | | |
| Rhenti o dan brydlesi gweithredu | 50,706 | 50,513 |
| | | |
| Eitem anariannol: Dibrisiant | 14,884 | 14,654 |
| | | |
| Cyfanswm | <u><u>356,221</u></u> | <u><u>192,270</u></u> |

Mae'r costau uchod yn cynnwys £204,870 (2015-16; £46,895) mewn perthynas â chostau teithio a chynhaliaeth, cyfieithu, argraffu, ffôn a llety a wariwyd ar ran y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Roedd y costau uwch o gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn sgil cynnydd sylweddol yn y gwaith a wnaed ar gyfer yr Arolwg o Etholaethau Seneddol yng Nghymru yn 2018.

3. INCWM

Incwm ariannu yw Cymorth Grant a chaiff ei gredydu'n uniongyrchol i'r cronfeydd wrth gefn. Yn ystod 2016-17, cafodd y Comisiwn £416,064 o gyllid gan Swyddfa'r Cabinet i dalu costau cynnal Ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yng Nghaerdydd (2015-16, £120,000). Roedd y costau uwch o gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn sgil cynnydd sylweddol yn y gwaith a wnaed ar gyfer yr Arolwg o Etholaethau Seneddol yng Nghymru yn 2018. Yn ogystal â hyn, cafodd y Comisiwn ad-daliad o £31 yn ymwneud â defnyddio Cardiau Caffael Cymru (2015-16, £51).

4. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

| | Technoleg Gwybodaeth £ | Dodrefn a Ffitiadau £ | Cyfanswm £ |
|--|------------------------------|-----------------------------|----------------|
| Cost neu Brisiad | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 49,346 | 68,711 | 118,057 |
| Ychwanegiadau | - | 1,153 | 1,153 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 49,346 | 69,864 | 119,210 |
| Dibrisiant | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 35,051 | 48,734 | 83,785 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 6,941 | 7,943 | 14,884 |
| Dilëwyd wrth waredu | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 41,992 | 56,677 | 98,669 |
| Gwerth i'w ddwyn ymlaen ar 31 Mawrth 2017 | 7,354 | 13,187 | 20,541 |
| Gwerth i'w ddwyn ymlaen ar 31 Mawrth 2016 | 14,295 | 19,977 | 34,272 |

Mae'r Comisiwn yn berchen ar yr holl Asedau.

5. OFFERYNNAU ARIANNOL

Gan y bodlonir gofynion arian parod y Comisiwn drwy Gymorth Grant gan Lywodraeth Cymru, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig mewn creu a rheoli risg nag a fyddai'n berthnasol i gorff nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol, yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwylidig y Comisiwn, felly nid yw'r Comisiwn yn agored i lawer o risg o ran credyd, hylifedd na'r farchnad.

6. SYMIAU MASNACH SY'N DDERBYNIADWY AC ASEDAU CYFREDOL ERAILL

| | 2017 £ | 2016 £ |
|---|---------------|--------------|
| Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn: | | |
| Rhagdaliadau ac incwm cronodig | 11,590 | 4,614 |
| Cyfanswm | 11,590 | 4,614 |

7. ARIAN PAROD A'R HYN SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD

| | 2017 £ | 2016 £ |
|---|---------------|---------------|
| Balans ar 1 Ebrill | 17,418 | 36,422 |
| Newid net i falansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 9,564 | (19,004) |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 26,982 | 17,418 |
| Balans ar 31 Mawrth | 26,982 | 17,418 |

8. SYMIAU MASNACH SY’N DALADWY A RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL ERAILL

| | 2017 £ | 2016 £ |
|---|---------------|---------------|
| Symiau sy’n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn: | | |
| Trethiant a nawdd cymdeithasol | 4,141 | 4,870 |
| Symiau masnach sy’n daladwy | 1,565 | 4,792 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 45,267 | 10,785 |
| Tâl gwyliau cronedig | 10,932 | 6,469 |
| | <u>61,905</u> | <u>26,916</u> |

9. PRYDLESI GWEITHREDU

| | 2017 £ | 2016 £ |
|---|---------------|---------------|
| Mae cyfanswm y taliadau prydlesu lleiaf yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu na ellir eu canslo yn cynnwys: | | |
| Adeiladau | | |
| Dim hwyrach nag 1 flwyddyn | 34,441 | 50,759 |
| Hwyrach nag 1 flwyddyn ond dim hwyrach na 5 mlynedd | - | 34,385 |
| Hwyrach na 5 mlynedd | - | - |
| Cyfanswm | <u>34,441</u> | <u>85,144</u> |

Mae ffigurau 2017 ar gyfer Adeiladau yn adlewyrchu prydles 5 mlynedd y Comisiwn ar swyddfeydd yn Nhŷ Hastings, Caerdydd sy’n dod i ben ar 4 Rhagfyr 2017.

10. TALIADAU ARBENNIG A CHOLLEDION

Cofnododd y Comisiwn golled a oedd yn dod i gyfanswm o £242 yn 2016-17 yn deillio o daliadau ofer yn ymwneud â methu talu'r swm postio cywir ar gyfer eitemau post wedi'i ffrancio a thandaliad o'r Cynllun Talu wrth Ennill ar ffioedd aelod a adenillwyd o'r Comisiwn gan CThEM (cofnodwyd colled o £16 yn 2015-16).

11. TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Ystyrir bod Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Comisiwn wedi cynnal amrywiaeth o drafodion sylweddol â Llywodraeth Cymru sy'n dod i gyfanswm gwariant o £51,985 (2015-16, £26,478). Roedd y Cymorth Grant a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn dod i gyfanswm o £414,148 (2015-16, £451,334). Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd gweddill dyledus gyda Llywodraeth Cymru gwerth £19,441 mewn perthynas â chostau staff ar secondiad a phrynu meddalwedd.

Mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn hefyd yn gweithredu fel Ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru (CFfG). Corff Cyhoeddus Anadrannol yw CFfG a noddir gan Swyddfa'r Cabinet. Ystyrir bod Swyddfa'r Cabinet yn barti cysylltiedig. Yn

ystod y flwyddyn, mae'r Comisiwn wedi cynnal amrywiaeth o drafodion sylweddol â Swyddfa'r Cabinet sy'n dod i gyfanswm gwariant o £34,823 (2015-16, £0). Yn ystod 2016-17 cafodd y Comisiwn £416,064 o gyllid gan Swyddfa'r Cabinet (2015-16, £120,000). Nid oedd unrhyw weddillau dyledus gyda Swyddfa'r Cabinet ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

Nid oes unrhyw un o aelodau'r Comisiwn, staff rheoli allweddol neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn.

12. DADANSODDIAD O WARIANT NET YN ÔL SEGMENTAU

Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn adlewyrchu'r segmentau y caiff canlyniadau gweithredu Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru eu hadrodd i'r Comisiwn ynddynt. Nid oes gan Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru segmentau a nodir ar wahân ac adrodda gwybodaeth ariannol i'w Fwrdd fel y datgelir yn Nodyn 2 a Nodyn 3.

13. RHWYMEDIGAETHAU AC ASEDAU AMODOL

Roedd rhwymedigaeth ddigwyddiadol ar ddiwedd 2016-17 mewn perthynas ag adennill TAW o bosibl ar gostau cyflogau hanesyddol staff a secondiwyd o'r tu allan i'r Comisiwn o Lywodraeth Cymru. Yn hanesyddol mae costau cyflogau ar gyfer staff a gaiff eu secondio o'r tu allan o Lywodraeth Cymru yn cael eu didynnu gan Lywodraeth Cymru o Gymorth Grant y Comisiwn cyn ei dalu, ac felly ni chymhwyswyd unrhyw TAW. Fodd bynnag, ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi cael cyfarwyddyd gan CThEM bod rhaid cymhwyso TAW i gostau'r holl staff ar secondiad. Ar ddyddiad llofnodi'r cyfrifon hyn, nid oedd unrhyw arwydd fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu adennill y costau TAW hanesyddol. Yn ogystal, nid oedd yn hysbys faint o gostau staff ar secondiad yn y flwyddyn flaenorol fyddai'n cael eu cynnwys, ac felly ni ellir amcangyfrif ffigur ar gyfer swm y rhwymedigaeth. (nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol ar ddiwedd 2015-16).

14. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Awdurdodwyd y cyfrifon hyn i'w cyhoeddi ar 26 Gorffennaf 2017 gan y Swyddog Cyfrifyddu. Ar ddyddiad llofnodi'r cyfrifon hyn, nid oedd unrhyw ddigwyddiadau i'w datgelu ar ôl y cyfnod adrodd.